# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

## (CYFARFOD AML-LEOLIAD – MICROSOFT TEAMS AC YSTAFELL GYNADLEDDA'R CABINET)

**Aelodau sy'n Bresennol:** **8 Ebrill 2024**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd S.Rahaman** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd N.Goldup-John** |
| **Cynghorwyr**: | W.Carpenter, J.Hale, M.Harvey, J.Henton, A.Lodwig, P.A.Rees, S.H.Reynolds a/ac P.Rogers |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | C.Griffiths, S.Curran a/ac P.Chivers |

---

1. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

   Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

2. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

   Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Tachwedd 2023 fel cofnod gwir a chywir.

3. **BLAENRAGLEN WAITH**

   Cynghorodd swyddogion yr aelodau mai'r cyfarfod hwn oedd y cyfarfod olaf yn y cylch o gyfarfodydd ar gyfer y flwyddyn ddinesig bresennol. Byddai dyddiadau cyfarfodydd newydd a'r flaenraglen waith yn cael eu cynghori yn dilyn Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Cyngor ym mis Mai.

   Nodwyd y Flaenraglen Waith.

4. **ADRODDIAD TERFYNOL PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL**

Darparodd swyddogion drosolwg cryno i'r aelodau am yr adroddiad a gynhwysir ym mhecyn yr agenda.

Nodwyd yr eitem hon.

5. **ADRODDIAD BLYNYDDOL PWYLLGOR Y GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD**

Penderfynwyd: Y bydd Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd yn nodi ac yn cymeradwyo Adroddiad Blynyddol 2023/24 a atodir yn Atodiad 1 ac yn ei gymeradwyo i'r Cyngor.

6. **CWMPASU TASG A GORFFEN; YMDRIN AG AFLONYDDU A BYGWTH AC AMRYWIAETH MEWN DEMOCRATIAETH**

Cytunodd y Pwyllgor yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Tachwedd i sefydlu dau grŵp Tasg a Gorffen mewn perthynas ag Ymdrin ag Aflonyddu a Bygwth ac Amrywiaeth mewn Democratiaeth.

Amlinellodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd fanylion y ddogfen gwmpasu Ymdrin ag Aflonyddu a Bygwth, fel a gynhwysir ym mhecyn adrodd yr agenda, gan ganolbwyntio ar y cwestiynau allweddol, y canlyniadau a fwriedir ac aelodaeth posib y grwpiau. Awgrymwyd y dylid cynnal y cyfarfod cyntaf yn ystod ail hanner mis Mai, lle gellir cynnal trafodaeth bord gron i nodi materion aelodau. Nodwyd bod Cynllun Gweithredu Amrywiaeth mewn Democratiaeth wedi cael ei gyhoeddi yn 2021 cyn yr Etholiadau Llywodraeth Leol yn 2022. Nod y Grŵp Tasg a Gorffen byddai adolygu'r cynllun gweithredu a nodi ffyrdd y gellir ei hyrwyddo gan y Cyngor. Nodwyd y gellir cynnal cyfarfodydd y ddau grŵp Tasg a Gorffen ar yr un pryd.

Nododd aelodau y gall fod yn addas estyn y gwahoddiad i asiantaethau partner a nodwyd bod Swyddogion Atal Troseddu yn Heddlu De Cymru ar gael i ddarparu cyngor am ddiogelwch yn y cartref a diogelwch personol i aelodau. Roedd aelodau'n teimlo bod trafodaethau ar y ddau bwnc yn amserol, ac y byddai'n ddefnyddiol trafod amrywiaeth cyn yr etholiadau llywodraeth leol nesaf. Mae angen i ni fel Cyngor ganolbwyntio ar y camau gweithredu y gellir eu

cymryd i fynd i'r afael â'r newid mewn diwylliant a nodi'r llwybrau y gall bygwth ac aflonyddu eu dilyn.

Cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd y gellir cynnwys hyn fel pedwerydd cwestiwn yn y ddogfen gwmpasu.

Gofynnodd yr aelodau am faint posib y grwpiau Tasg a Gorffen.

Cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd nad oedd unrhyw gynllun i gyfyngu ar faint y grwpiau, ond roedd hyn yn dibynnu ar lefel y diddordeb a ddangosir. Os yw nifer mawr o bobl yn mynegi diddordeb, gall fod angen i'r pwyllgor ystyried dulliau amgen o hwyluso hyn; os nad oes modd rheoli'r niferoedd, bydd angen lleihau'r cwmpas.

Gofynnodd y Cadeirydd a fyddai'r cyfarfodydd yn cael eu cynnal fel rhai hybrid neu wyneb yn wyneb. Dywedodd yr aelodau fod y pwnc yn fwy addas ar gyfer trafodaeth wyneb yn wyneb. Cadarnhaodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd, gan nad yw'r cyfarfodydd Tasg a Gorffen wedi'u galw o dan ddeddfwriaeth, gall y Cadeirydd ofyn i aelodau fynychu cyfarfodydd yn bersonol, ond byddai'r cyfarfodydd yn cael eu cynnal fel cyfarfodydd hybrid ar amser a oedd yn addas i'r rhan fwyaf o aelodau.

Cytunodd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd i estyn y gwahoddiad i holl aelodau'r Cyngor yr oedd ganddynt ddiddordeb mewn bod yn rhan o'r grwpiau Tasg a Gorffen. Byddai trefniadau'n cael eu gwneud i gael adborth gan yr holl aelodau, nid yn unig y rheini sy'n rhan o'r grwpiau Tasg a Gorffen.

## 7. **<u>EITEMAU BRYS</u>**

Nid oedd unrhyw eitemau brys.

**Cynghorydd S.Rahaman**
**CADEIRYDD**